**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**
**Mercher 9 Mawrth, 11 - 12pm**
**Microsoft Teams**

| | |
|---|---|
| <u>**Mynychwyr**</u> | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Y Cynghorydd Huw Thomas **(Cadeirydd)** | Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) |
| Charles Janczewski **(Is-gadeirydd)** | Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP Caerdydd a'r Fro) |
| Suzanne Rankin | Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Paul Orders | Prif Weithredwr, CC |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC |
| Gareth Newell | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC |
| Michael Evans | Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| Huw Jakeway | Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) |
| Alun Michael | Comisiynydd Heddlu a Throsedd, De Cymru (CHT) |
| Mark Brace | Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throsedd (SCHT) |
| Wendy Gunney | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| Eirian Evans | Pennaeth UCP Dros Dro, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) |
| Sheila Hendrickson-Brown | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| Amelia John | Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Tai, Llywodraeth Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Abigail Harris | Cyfarwyddwr Cynllunio (BIP Caerdydd a'r Fro) |
| Hannah Williams | Pennaeth UCP, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (ar secondiad) |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Yr Athro Ceri Phillips | Is-gadeirydd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Rhys Burton | Rheolwr Cymunedol a Phartneriaethau, Heddlu De Cymru |
| Sian Sanders | Rheolwr Gweithredol, Diogelwch Cymunedol, CC |
| Charlotte Amoss | Uwch Swyddog Polisi, Cynhwysiant ac Ymgysylltu, CC |
| Clive Bailey | Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso a Chyflwyniadau**<br><br>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.<br><br>Cafodd Suzanne Rankin groeso i'r BGC ar ôl dechrau ei rôl fel Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd yn ddiweddar. | |
| 2. | **Cofnodion a Chamau Gweithredu**<br><br>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2021. | |
| 3. | **Diweddariadau gan Bartneriaid**<br><br>Gwahoddwyd pob aelod o'r BGC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith diweddar a meysydd ffocws ar gyfer eu sefydliad wrth symud ymlaen. Dyma'r meysydd allweddol:<br><br>**Cyngor Caerdydd**<br>• Gofal cymdeithasol - gwaith i fynd i'r afael â'r gofynion ar ofal cartref yn dechrau cael effaith<br>• Costau byw - dechrau gweld effeithiau Covid-19 yn enwedig o ran digartrefedd a chynnydd yn y galw am gyngor ariannol.<br>• Affganistan – cyraeddiadau'n parhau<br>• Wcráin – paratoadau i gefnogi pobl sy'n cyrraedd<br><br>**BIP Caerdydd a'r Fro**<br>• Cynhelir adolygiad i lywio adferiad ac adnewyddu<br>• Bydd y newid o reoli pandemig, i Covid-19 fod yn endemig, yn gyfle i fyfyrio ar weithio mewn partneriaeth, atal a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd.<br>• Trafododd y BGC yr angen i ddysgu o weithio mewn partneriaeth dros y 2 flynedd ddiwethaf a gwreiddio'r hyn sydd wedi gweithio i fyd busnes fel arfer wrth symud ymlaen.<br><br>**Heddlu De Cymru**<br>• Y gwaith partneriaeth a wnaed gan y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol a arweinir gan y Cyngor i fod yn esiampl i'r dyfodol.<br>• Is-grwpiau Atal Trais bellach wedi'u sefydlu. Bydd gwaith nawr yn dechrau ar ddatblygu Strategaeth Atal Trais mewn ymateb i'r Ddyletswydd Trais Difrifol.<br><br>**Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** | |

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Eitem Agenda</th><th></th></tr>
<tr><td></td><td><ul><li>Mae proses o ailosod yn dilyn y pandemig ar y gweill, ar sail amlasiantaethol ac wedi'i llywio gan Fodel Gweithredu Cymru.</li></ul>
GTADC
<ul><li>Sefydliadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cydweithio i ddysgu o'r 2 flynedd ddiwethaf gan ganolbwyntio ar atal yn cael ei groesawu.</li>
<li>Gallu GTADC i gefnogi'r bregus i gael ei harneisio.</li>
<li>Yr amgylchedd adeiledig - meysydd ffocws allweddol yw’r sefyllfa wedi Grenfell ac effaith newid yn yr hinsawdd</li></ul>
C3SC
<ul><li>Ffocws gwaith sy'n symud nawr o'r pandemig i faterion fel costau byw, gyda mwy o alw am gyngor a chefnogaeth</li>
<li>Bellach mae C3SC wedi'i leoli yng Nghanolfan Gymunedol Butetown. Gwaith ar y gweill ar weithio hybrid a darparu allgymorth ar draws y ddinas.</li></ul>
CNC
<ul><li>Meysydd allweddol yw cyrchu ynni mwy gwyrdd a datblygu economi wyrddach sy'n cefnogi lles y boblogaeth a'r blaned</li></ul>
Llywodraeth Cymru
<ul><li>Cymeradwyo ymateb aml-asiantaeth i gefnogi'r digartref yn ystod y pandemig.</li></ul>
Cam Gweithredu:
<ul><li>Trafodaeth ar y 5 mlynedd nesaf a bwrw ymlaen â gwersi a ddysgwyd o'r pandemig, er mwyn eu hadeiladu i'r ffordd ymlaen/Cynllun Lles Lleol.</li></ul></td><td>Ysgrifenyddiaeth</td></tr>
<tr><td>4.</td><td>Asesiad Lles Lleol Caerdydd 2022<br><br>
Diweddarodd Gareth Newell y Bwrdd ar adborth a dderbyniwyd gan ymgynghorwyr statudol a’r diwygiadau a wnaed.<br><br>
CYTUNWYD:
<ul><li>Cafodd Asesiad lles lleol diwygiedig Caerdydd ei gymeradwyo i'w gyhoeddi.</li></ul>
Cafodd y Bwrdd wybod o'r gofynion a'r amserlenni ar gyfer llunio Cynllun Lles Lleol Caerdydd newydd, a chynigiwyd ar gyfer cynnal adolygiad o flaenoriaethau a threfniadau llywodraethu yn unol â'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad clawr a gylchredwyd gyda’r papurau.<br><br>
CYTUNWYD:</td><td></td></tr>
</table>

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | • Cytunwyd ar y cynnig ar gyfer adolygu a sefydlu blaenoriaethau partneriaeth a threfniadau llywodraethu newydd ar gyfer Caerdydd a rhanbarth Caerdydd a’r Fro, gyda’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cefnogaeth a'r gwaith a wnaed i gyflawni'r cynllun lles lleol presennol dros y 5 mlynedd diwethaf. | |
| **5.** | **Adroddiad y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol**<br><br>Dywedodd Sian Sanders wrth y Bwrdd fod y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol wedi cynnal ei gyfarfod olaf ac wedi rhoi trosolwg o'r cyflawniadau a'r gwaith sylweddol a osodwyd ar waith gan bartneriaid.<br><br>Cynhaliwyd trafodaeth ar gynnal cyfarfod diweddaru cynnydd ar yr argymhellion yn yr adroddiad ymhen blwyddyn.<br><br>**Cam Gweithredu:** Cynigion i fwrw ymlaen â gwaith y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i'w drafod mewn cyfarfod nesaf y BGC. | Ysgrifenyddiaeth<br><br>Sian Sanders |
| **6.** | **Unrhyw fater arall**<br><br>**Cymru Sy'n Dda i Bobl Hŷn**<br><br>Mae cais Caerdydd i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Dinasoedd a Chymunedau Sy'n Dda i Bobl Hŷn wedi’i dderbyn gan Sefydliad Iechyd y Byd. Caerdydd yw'r Awdurdod cyntaf yng Nghymru i ddod yn aelod o'r rhwydwaith. Mae fframwaith gwerthuso’n cael ei ddatblygu i olrhain cynnydd y ddinas o ran gwneud Caerdydd yn lle gwych i bobl hŷn fyw. Mae llwyfan digidol Sy'n Dda i Bobl Hŷn hefyd yn cael ei ddatblygu i hyrwyddo gwaith sydd ar y gweill.<br><br>**Sector wirfoddol**<br><br>Dywedodd Sheila Hendrickson-Brown wrth y Bwrdd bod ymgysylltu i ddechrau ar ddatblygu Strategaeth Wirfoddol, Cymuned a Menter Gymdeithasol (MGCCh) i gryfhau rôl y sector MGCCh wrth ddatblygu atebion i heriau'r ddinas.<br><br>**Cam Gweithredu:** Gwybodaeth i'w dosbarthu i'r Bwrdd ar sut i gymryd rhan yn natblygiad y Strategaeth Wirfoddol, Cymuned a Menter Gymdeithasol (MGCCh) | Sheila Hendrickson-Brown/Ysgrifenyddiaeth |
| 7. | **Dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf:**<br><br>I’w gadarnhau | |